PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2A

CYNNAL Y GWRANDAWIAD

Cyflwyniad

1. Rhaid i'r Tribiwnlys/Panel Apêl gynnal y gwrandawiad yn y modd y mae'n ei ystyried yn fwyaf addas i egluro'r materion ger ei fron ac yn gyffredinol i drin yr achosion yn gyfiawn. Mae'n rhaid ceisio osgoi ffurfioldeb yn ei achosion, i'r fath fodd sy'n ymddangos yn briodol.

2. Y rhagdybiaeth fydd y bydd pob parti yn mynychu drwy gyswllt fideo, oni bai bod parti'n nodi ar y ffurflen a ddarperir gyda'r Hysbysiad o Wrandawiad eu bod yn dymuno mynychu'n gorfforol yn lleoliad gwrandawiad y tribiwnlys (gweler atodiad 1 am gopi o'r ffurflen).

   PWYSIG: I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion cyn y gwrandawiad ar gyfer Gwrandawiadau Fideo, cyfeiriwch at Brotocol 2A(a).

Deddfwriaeth

Mae'r darpariaethau statudol ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys prisio i'w gweld yn:

- Rheoliad 25 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 30 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 37 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Cyffredinol

3. Bydd trefn achosion arferol y Tribiwnlys/Panel Apêl yn cael ei amlinellu i'r partïon gan glerc y tribiwnlys cyn dechrau'r gwrandawiad; fodd bynnag, gall y Tribiwnlys/Panel Apêl gynnal y gwrandawiad fel y gwêl yn dda. Mae unrhyw ymadawiad i'w nodi o fewn y rhesymau dros y penderfyniad.

4. Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Os oes gennych ddewis iaith, neu os oes angen cyfieithydd neu arwyddwr arnoch, dylech gysylltu â TPC o leiaf bythefnos cyn y gwrandawiad.

5. Rhaid i bartïon sy'n ymddangos yn y gwrandawiad ond sydd wedi methu â chadw at y gweithdrefnau a amlinellir ym Mhrotocol 1F(paragraff 5):

- os ydynt yn mynychu drwy gyswllt fideo, yn gallu cyflwyno'n glir drwy'r cyswllt fideo (h.y. drwy rannu sgrin), unrhyw ddogfennau y maent yn dibynnu arnynt, neu
- os ydynt yn mynychu'n gorfforol yn lleoliad y gwrandawiad, sicrhau fod ganddynt ddigon o gopïau o'r holl ddogfennau o'r fath gyda hwy. (Mae angen tri chopi ar gyfer y Tribiwnlys, un ar gyfer clerc y tribiwnlys ac un copi ar gyfer pob parti arall yn yr apêl.)

PWYSIG: Dylai partïon sy'n mynychu'r gwrandawiad yn gorfforol nodi, os nad yw'r dystiolaeth y maent yn ei chyflwyno wedi'i gweld gan barti sy'n mynychu drwy gyswllt fideo, efallai nad fydd gan y Tribiwnlys unrhyw ddewis ond gohirio'r achos.

6. Mae gan y Tribiwnlys ddisgresiwn llwyr p'un ai i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad ai peidio pan fo partïon yn methu â chadw at Brotocol 1F.

7. Dylai partïon sy'n dymuno i'w hapêl gael ei glywed yn eu habsenoldeb ddarparu copïau digonol o'u cyflwyniad o leiaf pum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

8. Yn gyffredinol, mae'r baich profi ar y parti sy'n ceisio iawn yn yr anghydfod.

9. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn trin pob parti yn gyfartal.

10. Cyn y gwrandawiad ei hun, bydd y partïon yn cael eu cyfarch a'u derbyn i'r ystafell wrandawiad gan glerc y tribiwnlys. Efallai y bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl eisoes yn bresennol neu gallant ddod i mewn yn ddiweddarach. Nid oes angen i bobl yn lleoliad y gwrandawiad sefyll pan fydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn dod i mewn neu'n gadael neu wrth gyfarch y Tribiwnlys a gofyn cwestiynau.

11. Gwneir unrhyw gyhoeddiadau iechyd neu ddiogelwch gan glerc y tribiwnlys cyn i'r gwrandawiad ddechrau.

12. Bydd clerc y tribiwnlys yn cyflwyno'r partïon i'r Tribiwnlys/Panel Apêl cyn i'r gwrandawiad ddechrau.

13. Mae gan y Tribiwnlys/Panel Apêl y pŵer i ofyn i barti neu dyst roi tystiolaeth o dan lw neu gadarnhad.

14. Ni all y Tribiwnlys/Panel Apêl wneud unrhyw orchymyn mewn perthynas â chostau.

15. Yn gyffredinol, ni chaniateir recordio'r achos, ac eithrio'n ysgrifenedig, oni bai bod parti yn gallu dangos anghenion neu amgylchiadau arbennig h.y. anabledd neu anhawster iaith.

16. **Y Gwrandawiad**

17. Bydd y cadeirydd yn agor yr achos ac yn gwneud unrhyw gyflwyniadau angenrheidiol.

18. Bydd clerc y tribiwnlys yn cyflwyno pob achos trwy gyfeirio at seiliau'r apêl.

19. Fel rheol, bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn neilltuo ei benderfyniad a bydd y cadeirydd yn rhoi syniad o'r amserlen ar gyfer ei gyhoeddi.

20. Gall y Tribiwnlys/Panel Apêl benderfynu archwilio'r eiddo apêl ac/neu ardal yr eiddo.